O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1215 (Cy.123)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) (Rhif 2) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli'r Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008 (OS 2008/620 (Cy.69)).

Mae Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer gorfodi tramgwyddau parcio yn sifil. Mae Rhan 6 yn cynnwys pwerau sy'n darparu un fframwaith i wneud rheoliadau er mwyn i awdurdodau lleol orfodi cyfyngiadau parcio ac aros yn sifil, a lonydd bysiau a rhai tramgwyddau y mae a wnelont â thraffig sy'n symud. Bydd y cyfryw reoliadau yn disodli pwerau sydd eisoes yn bodoli mewn deddfwriaeth o ran Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pŵer wrth gefn i'r awdurdod cenedlaethol priodol i gyfarwyddo awdurdod lleol i wneud cais am bwerau gorfodi sifil.

O dan y pwerau a roddir gan Ran 6, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) 2008 (O.S. 2008/1215 (Cy. 122)). Mae Rheoliad 5(a) o'r Rheoliadau hynny yn gwahardd, yn unol ag adran 72(4)(a) o Ddeddf 2004, gosod ffi gosb am dramgwydd parcio ac eithrio ar sail cofnod a gynhyrchir gan ddyfais a gymeradwyir neu wybodaeth a roddir gan swyddog gorfodi sifil parthed ymddygiad a welwyd ganddo ef.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu disgrifiad o ddyfais sydd yn ddyfais a gymeradwyir at y diben hwn. Yn unol ag erthygl 2, mae dyfais yn ddyfais a gymeradwyir os yw o fath sydd wedi ei ardystio gan Weinidogion Cymru fel un sydd yn bodloni'r gofynion a bennir yn yr Atodlen.

Mae Cyfarwyddeb Safonau Technegol Cenedlaethol 98/34/EC, fel y'i diwygiwyd gan 98/48/EC, ("y Gyfarwyddeb"), yn ceisio atal rhwystrau technegol newydd i fasnachu rhag cael eu creu ac yn gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau technegol a rheoliadau. Rhaid hysbysu'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio o unrhyw offeryn statudol sy'n rhagnodi safonau technegol a rhaid i'r Adran honno yn ei thro hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae Erthygl 9, paragraff 1, o'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i oedi tri mis rhwng hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd o'r offeryn statudol a dyddiad gwneud yr offeryn hwnnw neu'r dyddiad y daw i rym. Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd o'r offeryn statudol hwn ar 12 Medi 2007. Daeth y cyfnod o dri mis i ben felly ar 13 Rhagfyr 2007.

Gellir cael Asesiad Effaith Reoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol gan yr Uned Trafnidiaeth Integredig, Yr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/buslegislation/bus/bus-legislation-sub/bus-legislation-sub-annulment.htm

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1215 (Cy.123)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) (Rhif 2) 2008

Gwnaed	*29 Ebrill 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*30 Ebrill 2008*
Yn dod i rym	*22 Mai 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) (Rhif 2) 2008. Daw i rym ar 22 Mai 2008 ac y mae yn gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y dibenion statudol" ("*the statutory purposes*") yw dibenion y rheoliadau sy'n ymwneud â gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio o dan adran 72(4)(a) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004;

ystyr "y gofynion a bennir" ("*the specified requirements*") yw'r gofynion a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn; ac

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA state*") yw gwladwriaeth o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

(**1**) 2004 p.18.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

Dyfeisiadau a gymeradwyir

2.—(1) Mae dyfais yn ddyfais a gymeradwyir at y dibenion statudol os yw o fath sydd wedi ei ardystio gan Weinidogion Cymru fel un sy'n bodloni'r gofynion a bennir.

(2) Cymerir bod dyfais yn bodloni'r gofynion a bennir pan fo tystiolaeth wedi'i darparu sy'n bodloni Gweinidogion Cymru bod awdurdod cymwys mewn Gwladwriaeth AEE wedi canfod bod y ddyfais o dan sylw yn un sy'n bodloni gofynion safon AEE sy'n gofyn am lefel o berfformiad sy'n cyfateb i'r lefel o berfformiad sy'n ofynnol gan y gofynion a bennir.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "safon AEE" ("*EEA standard*") yw

(a) safon neu god ymarfer corff safonau gwladol neu gorff cyfatebol perthynol i unrhyw Wladwriaeth AEE;

(b) unrhyw safon ryngwladol a gydnabyddir ar gyfer ei defnyddio fel safon neu god ymarfer gan unrhyw Wladwriaeth AEE; neu

(c) manyleb dechnegol a gydnabyddir ar gyfer ei defnyddio fel safon gan awdurdodau cyhoeddus perthynol i unrhyw Wladwriaeth AEE.

Dirymu Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008

3. Dirymir Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2008(**1**) drwy hyn.

Ieuan Wyn Jones

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

29 Ebrill 2008

(**1**) OS 2008/620 (Cy. 69)

YR ATODLEN

GOFYNION AR GYFER DYFAIS A GYMERADWYIR

1. Rhaid i'r ddyfais gynnwys camera—

(a) sydd wedi ei osod yn gadarn ar gerbyd, adeilad, postyn neu strwythur arall;

(b) sydd wedi ei osod yn y fath sefyllfa fel y gall weld cerbydau mewn perthynas â pha rai y mae tramgwyddau parcio yn cael eu cyflawni;

(c) sydd wedi ei gysylltu drwy ddolenni data diogel â system recordio; ac

(ch) sy'n gallu cynhyrchu mewn un llun neu fwy, ddelwedd neu ddelweddau gweladwy o'r cerbyd mewn perthynas â pha un y cafodd tramgwydd parcio ei gyflawni sy'n dangos ei nod cofrestru a digon o'i leoliad i ddangos amgylchiadau'r tramgwydd.

2. Rhaid i'r ddyfais gynnwys system recordio—

(a) sy'n recordio'n awtomatig gynnyrch y camera neu'r camerâu sy'n gweld y cerbyd a'r man lle mae tramgwydd yn digwydd;

(b) lle defnyddir dull recordio cadarn a dibynadwy sy'n recordio ar gyfradd isafswm o 5 ffrâm yr eiliad;

(c) lle mae pob ffrâm o bob delwedd a ddelir wedi ei hamseru (mewn oriau, munudau ac eiliadau), wedi ei dyddio ac wedi ei rhifo'n olynol ac yn awtomatig drwy beiriant cyfrif gweledol; ac

(ch) pan nad yw'r ddyfais ar safle gosodedig, sy'n recordio'r lleoliad y mae'n cael ei weithredu ohono.

3. Rhaid i'r ddyfais a'r peiriant cyfrif gweledol—

(a) bod wedi'u syncroneiddio â chloc safon genedlaethol annibynnol addas; a

(b) bod yn fanwl-gywir o fewn plws neu minws 10 eiliad dros gyfnod o 14 diwrnod a bod wedi ei ail-syncroneiddio â'r cloc safon genedlaethol annibynnol addas o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.

4. Pan fo'r ddyfais yn cynnwys cyfleuster i argraffu delwedd lonydd, rhaid i'r ddelwedd honno pan y'i hargreffir ddwyn ardystiad o'r amser a'r dyddiad pan ddaliwyd y ffrâm a'i rhif unigryw.

5. Pan fo'r ddyfais yn gallu recordio geiriau llafar neu ddata clywadwy eraill yn gyfamserol â delweddau

gweledol, rhaid i'r ddyfais gynnwys dull o wirio bod y trac sain, mewn unrhyw recordiad a gynhyrchir ganddo, wedi ei syncroneiddio'n gywir â'r ddelwedd weledol.